

# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Deio Dau (2)** |
| Adnoddau: | • Llun y drws sydd ar ddiwedd y daflen hon wedi ei lungopïo (un i bob dysgwr) - ar gardfwrdd gwyn os yw'n bosib.<br>• Pensiliau.<br>• Paent / pensiliau lliw.<br>• Glud.<br>• Sisyrnau.<br>• Pasta sych / secwins / gliter / gwlân cotwm / pompoms bach / peli.<br>• Ffelt / plu / dail / unrhyw ddeunydd addas. |
| Camau: | Yn y llyfr 'Cymeriadau Difyr: Deio Dau', mae Deio'n byw ar Stryd y Rhifau, ac mae ei dŷ rhwng cartrefi ei ddau ffrind - Alun Un a Twm Tri. Wrth gerdded Stryd y Rhifau, gallwn weld pwy sy'n byw ym mhob tŷ gan fod eu rhifau ar y drws.<br><br>Ar waelod y daflen hon, mae amlinelliad o ddrws tŷ Deio Dau.<br><br>Cam 1 - Trafodwch y rhif 2 gyda'r dysgwyr. Anogwch y dysgwyr i ddilyn y siâp 2 ar y drws gyda'u bys. Yna holwch y dysgwyr i ddefnyddio pensil i ddilyn y dotiau ar y 2 mawr.<br><br>Cam 2 - Gan ddefnyddio pensiliau lliw neu baent, gall y dysgwyr baentio'r drws cyfan, gan gynnwys y rhif 2 yn y canol. Dylid annog peidio â rhoi haen rhy drwchus dros y rhif - bydd angen gallu gweld amlinelliad y rhif i'r cam nesaf.<br><br>Cam 3 - Gan ganolbwyntio ar siâp y rhif 2, dylid gosod glud yn ofalus o fewn amlinelliad y rhif, yna glynu'r deunydd a ddewiswyd (pasta sych / secwins / gwlân cotwm / pompoms bach / peli ffelt / plu / dail ayb) ar y glud.<br><br>Cam 4 - Pan fydd y glud wedi sychu, gellir torri siâp y drysau, a'u harddangos. |
| Cwestiynu: | Pwy sy'n byw yn rhif 2 Stryd y Rhifau?<br>Pwy sy'n byw bob ochr?<br>Ydych chi'n gallu dilyn y siâp 2 ar y drws gyda'ch bys?<br>Pa liw ydych chi am ei ddefnyddio i liwio / paentio'r drws?<br>Pa ddeunydd ydych chi am ei ddefnyddio i addurno'r '2'? |





| | |
|---|---|
| Beth nesaf? | Gellir ymestyn y drafodaeth am rifau a'u trefn trwy greu 10 drws arall - un ar gyfer pob cymeriad, gyda'r rhif yn glir ar y drws.<br>Beth am liwio / paentio'r drws gyda lliw y cymeriad?<br>Gellir gosod y drysau ar y bwrdd / llawr ac annog y dysgwyr i osod y drysau mewn trefn fel y maen nhw'n byw ar Stryd y Rhifau.<br>Yr athro i dynnu un drws o'r rhes. Pa un sydd ar goll?<br>Yna yr athro i ddechrau gosod y drysau ar y bwrdd mewn trefn. Pa rif sy'n dod nesaf?<br>Gellir ymestyn y drafodaeth ymhellach trwy dynnu sylw at yr odrifau a'r eilrifau. |





*Amlinelliad o ddrws Deio 2 i lungopïo i ddefnyddio yn y gweithgaredd*

